Rolau addysgu

Ceir dwy rôl addysgu wahanol a bydd y disgrifiadau penodol i'r modiwl yn esbonio pa rôl sy'n ofynnol. Mae manyleb gyffredinol y person yn berthnasol i'r ddwy rôl, er y gall rai elfennau amrywio ychydig.

Darlithydd Cyswllt yw'r term a ddefnyddiwn ar gyfer y mwyafrif o'r staff a gyflogir i addysgu ein myfyrwyr. Maent yn gwneud cyfraniad hollbwysig at ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac yn cefnogi myfyrwyr drwy gysylltu â nhw ar adegau allweddol yn ystod eu cyfnod astudio, marcio a rhoi adborth ar aseiniadau, helpu'r myfyrwyr i ddeall deunydd y modiwl a'u helpu i baratoi ar gyfer arholiad neu asesiad diwedd modiwl.

Mae gan **Diwtoriaid ymarfer** rôl ehangach mewn perthynas â rhaglenni proffesiynol, megis Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol. Mae gan y tiwtoriaid ymarfer hyn gyfrifoldeb penodol am faterion o ran ymarfer, hwyluso cyfarfodydd dysgu drwy ymarfer mewn cyfle dysgu drwy ymarfer myfyrwyr, ac am fonitro cynnydd cyffredinol eu grŵp myfyrwyr, yn enwedig cynnydd ar gyfleoedd dysgu drwy ymarfer.